| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **4 Tachwedd 2024** |
| **Teitl :** | **Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Ymchwilio Ombwdsman** |
| **Awdur :** | **Iwan G D Evans Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Swyddog Monitro** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth** |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am ganfyddiadau ymchwiliad annibynnol i brosesau yr Ombwdsman

2**. Argymhelliad**

Darparu adborth ar yr adroddiad

**3. Cefndir**

3.1 Ym Mawrth 2024 daeth i'r amlwg fod rheolwr tim oedd yn gyfrifol am ymchwiliadau Cod Ymddygiad yn swyddfa'r Ombwdsman wedi bod yn gwneud postiadau gwleidyddol a pleidiol wleidyddol ar y cyfryngau cymdeithasol. Cafodd y mater gryn sylw yn y wasg ar y pryd. Arweiniodd hyn at ymddiswyddiad y swyddog. Roedd y swyddog yn gyfrifol am arwain y tim oedd yn asesu a phenderfynu ar ymchwilio ar gwynion fod cynghorwyr wedi torri y Cod ymddygiad. Yn anorfod roedd hyn yn mynd i godi cwestiynau difrifol am ddylanwad neu effaith y safbwyntiau yma ar ddidueuddra gwasaneth yr Ombwdsman a hyder fod penderfyniadu i ymchwilio neu beidio ymchwilio yn hollol ddi-duedd a thu allan i unrhyw safbwyntiau gwleidyddol. O ganlyniad bu i'r Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus gomisiynu ymchwiliad annibynnol i adolygu y penderfyniadau yma yn eu cyfanrwydd er darparu sicrwydd cyhoeddus o briodoldeb y trefniadau. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd allweddol fod gwaith yr Ombwdsman yn hollol anwleidyddol ond hefyd fod hyn yn ganfyddiad cyhoeddus hefyd. Arweinwys yr adolygiad gan Dr Melissa McCullough, Comisiynydd Safonau Cynulliad Gogledd Iwerddon.

3.2 Dyma brif ganfyddiadau yr adroddiad:

- “Mae prosesau a dirprwyaethau Cod Ymddygiad OGCC yn gadarn, o ran diogelu, tegwch a didueddrwydd. Maent yn systematig, wedi’u dogfennu’n dda ac wedi’u hategu gan ganllawiau priodol ac mae angen cofnodi ac esbonio’r rhesymau dros benderfyniadau, fel y bo’n briodol.
- Mae’r holl benderfyniadau yn seiliedig yn gyfan gwb ar dystiolaeth, ffeithiau ac ymresymiad cadarn ac wedi’i fynegi’n dda ac, fel y cyfryw, nid oedd unrhyw dystiolaeth o duedd wleidyddol. Ni chanfu’r adolygiad achos unrhyw dystiolaeth bod y penderfyniadau ar unrhyw un o’r achosion a adolygwyd wedi’i ddylanwadu gan ymlyniad gwleidyddol yr unigolyn a wnaeth y gŵyn a/neu’r aelod y cwynwyd amdano.
- Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y cyn-reolwr tîm wedi mynegi ei barn bersonol ar faterion gwleidyddol “yn debyg i’w postiadau cyfryngau cymdeithasol” yn y swydd a/neu wedi dylanwadu’n amhriodol ar unrhyw aelod arall o staff, wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.”

3.3 Nid oes angen tanlinellu rôl ganolog yr Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus yng nghynnal y fframwaith foesegol awdurdodau lleol yng Nghymru. Nid oes sustem gyffelyb yn Lloegr ac mae rhinweddau sylweddol o safbwynt cynnal y gyfundrefn i gael corff annibynnol a chyfrifoldeb am y broses ymchwilio . Mae’r ffaith fod y sefyllfa yma wedi codi wedi bod yn destun siom a phryder cyffredinol. Felly, mae canfyddiadau yr adroddiad yma yn allweddol i symud ymlaen o’r digwyddiad ac chynnal hyder yn y drefn yma.

**4. Argymhellion yr Adroddiad**

4.1 Mae sawl argymhelliad yn yr adroddiad ar dudalen 26 . Hoffwn dynnu sylw at dri o rai penodol fyddai o ddiddordeb i chi fel aelodau a sydd ynglŷn a’r trefniadau ymchwilio :

- Dogfennu ymlyniad gwleidyddol yr Aelod a Gyhuddwyd: er mwyn lliniaru’r risg o ragfarn ddiarwybod ar ran y Swyddog Ymchwilio ac i fod yn sail i degwch y broses asesu cwynion, argymhellir bod camau’n cael eu cymryd i sicrhau nad yw ymlyniad gwleidyddol yr Aelod a Gyhuddwyd yn cael ei gofnodi ar y PAFF.

- Nid yw’r Aelod a Gyhuddwyd yn cael gwybod am y gŵyn tan ar ôl yr asesiad: er mwyn bod yn deg ac yn dryloyw, argymhellir bod Ombwdsmon Gwasanaethau

Cyhoeddus Cymru yn ystyried dychwelyd at yr arfer blaenorol o roi gwybod i'r Aelod a Gyhuddwyd am y gŵyn ar ôl iddi ddod i law.

- Ffactorau ac ystyriaethau er budd y cyhoedd: mae'r adolygiad yn cydnabod nad yw'r ffactorau a'r ystyriaethau a restrir yn holl gynhwysfawr, ond mae'n argymell bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried datblygu canllawiau mewnol manylach ar asesu prawf budd y cyhoedd.

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a darparu barn ac ymateb i'r canfyddiadau .

**Atodiad 1**

Adolygiad annibynnol o ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gwynion Cod Ymddygiad